Ffordd Y Wiwer Goch

Dw'i ddim yn San Francisco nawr
Rwyf rhywle rhwng dau le
Hanner ffordd i unlle
Yng nghanol storom gref.
Mae'r cwmpawd yn troi'n wallgo'
A'r glaw yn chwipio fy moch
Dwy'n ofni mod i'n teithio
Ffordd y wiwer goch.

Dwy ddim yn San Francisco nawr
Nac unrhyw harbwr clyd
Dwy mas 'ma ar ben fy hunan
Yn ennill profiad drud.
"Paid colli dy gyfeiriad,"
Fe weiddodd rh'w un yn groch
"Ne' fyddi'n siŵr o ddilyn
Ffordd y wiwer goch."

Nos da fy nghariad fach
Cawn hwylio am y glasddwr,
Hwyliau cwsg a llong y nos
A'n cludo tua'r cefnfor.
Nos da fy nghariad fach
Mae'r hwylie'n llanw'n eiddgar,
Cawn gerdded 'dan y ser di-ri'
Ar draeth rhyw ynys hawddgar.

Dwy ddim yn San Francisco nawr
Dwy yma'n chwys i gyd
Yn ceisio a dyfalu
I ble ddiawl aeth y byd.
Dwy'n gwybod fod yr awr yn hwyr
Dwy'n clywed swn y gloch
Mae'n amser i mi gychwyn
Am ffordd y wiwer goch.

© Geraint Griffiths 2001